Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CRYNODEB O GANLYNIADAU A PHROSESAU

Mae Annog Dysgu yn ymwneud â chanlyniadau yn ogystal â phrosesau. Mae'r canlyniadau hyn yn sail i'r fframwaith.

Canlyniadau dysgu ar gyfer defnyddwyr

- Mae pobl yn mwynhau eu hunain ac yn cael eu hysbrydoli a'u cyfoethogi gan y profiad
- Mae pobl yn defnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau i ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- Mae pobl yn datblygu sgiliau o ganlyniad i ddefnyddio amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd
- Mae pobl yn dod yn fwy hunanhyderus, yn gofyn mwy o gwestiynau, mae ganddynt fwy o gymhelliant ac yn agored i bersbectifau pobl eraill
- Mae pobl yn penderfynu gwneud rhywbeth gwahanol yn eu bywydau

Canlyniadau eraill i ddefnyddwyr

- Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael croeso, parch a chefnogaeth gyda'u dysgu
- Mae pobl yn cael mynediad i'r cyfleoedd dysgu y maent eu heisiau

Canlyniadau i'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell

- Mae amrediad ehangach o bobl yn defnyddio'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell
- Crëir cyfleoedd dysgu newydd o ganlyniad i bartneriaethau
- Mae staff, gwirfoddolwyr ac aelodau cyrff llywodraethol yn eiriolwyr effeithiol dros ddysgu
- Mae pobl sy'n gweithio yn y sefydliad ac ar ei ran yn dysgu ac yn datblygu eu hymarfer yn barhaus

Bydd Annog Dysgu yn eich helpu i ddangos eich bod yn cyflawni'r canlyniadau hyn.



Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

PROSESAU – YR HYN Y MAE'R SEFYDLIAD YN EI WNEUD

Pobl

Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol

Rydych chi'n

- Cysylltu ac ymgynghori ag amrywiaeth eang o bobl i ddatblygu cyfleoedd dysgu
- Darparu cyfleoedd i bobl ddysgu
- Ehangu'r amrediad o gyfleoedd dysgu ar gyfer cynnwys defnyddwyr newydd ac amrywiol
- Symbylu ymchwil a darganfod
- Gwerthuso canlyniadau dysgu gwasanaethau, rhaglenni a gweithgareddau

Llefydd

Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli ac yn hygyrch

Rydych chi'n

- Creu amgylcheddau sy'n hybu dysgu
- Datblygu'ch staff i roi cymorth i ddysgwyr
- Hyrwyddo'ch hun fel man ar gyfer dysgu, ac ysbrydoliaeth.

Partneriaethau

Llunio partneriaethau dysgu creadigol

Rydych chi'n

- Pennu partneriaid posibl a gwerthuso manteision gweithio mewn partneriaeth i gefnogi dysgu
- Gweithio gyda'r partneriaid hyn i gynllunio a datblygu cyfleoedd dysgu
- Gwahodd pobl o'r tu allan i'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell i ddod â phersbectifau newydd ac ehangu amrediad ac apêl y cyfleoedd dysgu

Polisïau, Cynlluniau, Perfformiad

Gosod dysgu wrth galon yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell

Rydych chi'n

- Nodi a cheisio dylanwadu ar gynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Adlewyrchu datblygiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn cynlluniau a blaenoriaethau
- Dangos bod yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell yn gorff dysgu trwy brosesau gwerthuso a datblygu staff